POLISI CODI TÂL MEYSYDD PARCIO

Polisi Gosod Taliadau ar gyfer Parcio Ceir

DRAFT

Cyngor Sir Penfro

Diweddarwyd Medi 2014

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r drefn a'r sail resymegol dros osod taliadau parcio gan Gyngor Sir Penfro. Bydd y polisi'n nodi pa daliadau fydd yn gymwys, os o gwbl, a'r arhosiad priodol ym mhob lleoliad. Mae hwn yn bolisi sydd wedi'i ddiweddaru. Cafodd y polisi gwreiddiol ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 31 Hydref 2002, yn dilyn gweithredu pwerau Gorfodi Parcio Sifil.

2. Prif Egwyddorion

Mae angen ystyried yr egwyddorion canlynol ar gyfer taliadau parcio ceir. Mae angen cymhwyso'r egwyddorion hyn yn gyson, a fydd yn arwain at wahanol daliadau o le i le, ac ar yr un pryd sicrhau nad yw'r taliadau'n ffafrio un ardal mewn perthynas ag un arall:

- Yr angen i annog masnach adwerthu;
- Yr angen i reoli traffig, yn cynnwys parcio ar y stryd a llif y traffig;
- Yr angen i reoli galw'n effeithiol;
- Natur y lleoliad parcio a'i ddefnyddwyr; h.y. Siopwr/busnes trefol, preswyl, siopwr tref wledig, traeth/ymwelydd;
- Cymharu â darparwyr eraill yn yr ardal;
- Yr angen i annog ffurfiau trafnidiaeth fwy cynaliadwy, yn cynnwys cludiant cyhoeddus;
- Nid yw'r taliadau'n cael eu gosod er mwyn sicrhau incwm yn unig;
- Rhoi ystyriaeth i ddarpariaeth y gyllideb refeniw yn gyffredinol (gwariant ac incwm) ar gyfer meysydd parcio;
- Rhagdybiaeth o blaid ariannu gwelliannau trwy gynyddu'r dariff.

DRAFT

2.1 Economi

Dylid gosod taliadau parcio ceir er mwyn sicrhau'r effaith arfaethedig orau bosibl o ran annog siopa yn lleol. Er mwyn sicrhau bod amcan y polisi hwn yn cael ei gyflawni, mae'n rhaid ystyried taliadau parcio ceir fesul tref, gan roi ystyriaeth i freuder yr economi leol.

2.2 Rheoli Traffig a Pharcio ar y Stryd

Gall taliadau parcio ceir ddylanwadu ar ddewis modurwyr i chwilio am fan gwag i barcio yn rhywle arall cyn derbyn bod angen talu i barcio, a pha leoliad parcio y byddant yn ei ddefnyddio pan fo dewis ar gael. Gall tariffau amrywiol ddylanwadu ar ba leoliad fydd yn cael ei ddewis.

Mae'r awydd i barcio ar y stryd yn arwain at draffig yn teithio o gwmpas y strydoedd yn chwilio am le i barcio. Mae parcio anghyfreithlon ar linellau melyn yn digwydd yn lleol; fodd bynnag, trwy gyfrwng y Pwerau Gorfodi Sifil mae gennym bellach bwerau gorfodi i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd codi tâl am barcio ar y stryd, a gwell gorfodi, yn dylanwadu ar y dewis o leoliadau parcio. Pan fo taliadau'n cael eu

cyflwyno ar gyfer parcio ar y stryd, bydd y tariffau'n ystyried argaeledd parcio oddi ar y stryd a'r awydd i leihau parcio ar y stryd er mwyn gwella rheoli traffig.

Rydym bellach yn gweithredu 53 o gynlluniau parcio ar y stryd i drigolion ar draws y sir. Mae'r cynlluniau parcio hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda nifer yn cymryd rhan. Bellach gall trigolion sy'n dymuno'r cynlluniau hyn eu symud yn eu blaenau.

Gellir ystyried nifer o opsiynau er mwyn cynorthwyo rheoli traffig a gorfodi parcio ar y stryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gorfodi Parcio Sifil
  Rydym wedi bod yn cynnal y cynllun Gorfodi Parcio Sifil er mis Chwefror 2011. Mae Gorfodi Parcio Sifil wedi rhoi pwerau i'r awdurdod reoli troseddau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd.
- Parthau Parcio a Reolir
  Gellir cyflwyno Parthau Parcio a Reolir fesul ardal, gan osod diffiniad rheolaeth pob parth parcio a reolir mewn gorchymyn traffig. Gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio pwerau gorfodi parcio sifil ar gyfer y parthau parcio a reolir.
- Taliadau ar y Stryd
  Mae'n cael ei ystyried yn briodol i gysylltu parthau parcio ceir ag ardaloedd ar y stryd yn ogystal â meysydd parcio oddi ar y stryd. Pan fo taliadau ar gyfer parcio ar y stryd, yna dylai'r taliad fod o leiaf cymaint â'r taliad ar gyfer parcio oddi ar y stryd ar gyfer y parth parcio dan sylw. Lle nad oes tâl am barcio ar y stryd, yna dylid gosod cyfnod aros cyfyngedig i adlewyrchu'r parth parcio ceir, a dylai'r amser aros hiraf fod yn llai na pharcio oddi ar y stryd o'i gymharu â'r parth parcio ceir hwnnw. Ym mhob achos, dylid cyfyngu parcio ar y stryd i heb fod yn fwy nag 1 awr yn yr holl ardaloedd Parth A.
- Parcio i Drigolion
  Pan fo trigolion yn cyflwyno cynnig, gellir cyflwyno cynlluniau parcio i drigolion a chyfyngu parcio i fannau penodol ar y stryd trwy brynu trwydded flynyddol, er nad yw'r drwydded yn gwarantu defnyddio man parcio penodol.
- Adolygu gorchmynion traffig
  Mae angen adolygu'r gorchmynion traffig presennol yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r galw o ran llif traffig a gofynion parcio.

2.3 Rheoli'r Galw

Dylid gosod taliadau parcio i annog siopwyr (y mae angen arnynt gario nwyddau), sy'n debygol o fod angen mannau parcio am gyfnod byr. Pan fo galw uchel am barcio ceir a/neu gapasiti cyfyngedig, yna dylid gosod cyfnodau parcio a thariffau'n ofalus er mwyn sicrhau'r trosiant gorau posibl. Fel arfer bydd yn ofynnol i ddefnyddwyr cyfnodau hirach barcio ymhellach o ganol trefi lle mae galw uchel am barcio tymor byr.

DRAFT

2.4 Parthau Parcio

Yn gyffredinol bydd natur lleoliadau parcio'n pennu'r taliadau perthynol (os o gwbl) y dylid eu gosod. Trwy gyfrwng y polisi hwn bydd lleoliadau parcio ceir yn cael eu dynodi i un o'r parthau canlynol fel y cam cyntaf i bennu'r taliadau mwyaf priodol i'w gosod:

Parth	Disgrifiad	Enghreifftiau	
		Oddi ar y Stryd	Ar y Stryd
A	Siopa canolog a defnydd tymor byr arall (galw uchel, trosiant uchel). Uchafswm aros o 2 awr.	Llawr gwaelod aml-lawr (Dinbych-y-pysgod, Hwlffordd). Ffordd Perrots, Hwlffordd. Parcio Llyn y Castell, Hwlffordd (ardal arhosiad byr).	Stryd Fawr, Hwlffordd. Stryd Charles, Aberdaugleddau.
B	Defnydd cymysg, arhosiad canolig i dymor hir gydag ychydig o arosiadau byr gorlif (galw uchel). Arosiadau o 2 awr i drwy'r dydd ac yn cynnwys tariff 4 awr.	Lloriau uchaf aml-lawr (Dinbych-y-pysgod, Hwlffordd) Parcio Llyn y Castell Hwlffordd (ardal arhosiad hir).	Y Prom, Dinbych-y-pysgod Ffordd Perrots, Hwlffordd.
C	Arhosiad hirach, ymyl y dref. Arosiadau o 4 awr i drwy'r dydd. Hefyd yn cynnwys arosiadau 5 awr	Townsmoor, Arberth The Commons, Penfro I gynorthwyo â phatrymau gweithio hyblyg	The Croft, Dinbych-y-pysgod
D	Traeth gwledig / allan o'r dref. Arosiadau o 2 awr i drwy'r dydd	Niwgwl.	Porth Stinian, Tyddewi

Cynigir bod yr holl leoliadau parcio ceir cyhoeddus yn cael eu dynodi i un o'r parthau hyn. Yna archwilir ffactorau eraill, yn cynnwys breuder yr economi, rheoli traffig, y galw am fannau parcio, a chymhariaeth â darparwyr lleol eraill er mwyn pennu'r taliadau y dylid eu cymhwyso ym mhob lleoliad. Bydd y taliadau parcio ceir yn cael eu hadolygu'n unol â'r polisi hwn. Nid yw'r peiriannau Talu ac Arddangos yn rhoi newid yn ôl felly ni roddir ad-daliadau am dalu mwy na'r hyn sydd ei angen ar gyfer arhosiad.

2.5 Cymharu â darparwyr eraill

Dylai'r taliadau ystyried darparwyr eraill yn yr ardal ac awdurdodau lleol tebyg eraill. Mae angen cymariaethau lleol er mwyn cynnal ein safle yn y farchnad ac i sicrhau y bodlonir amcanion rheoli traffig. Mae angen i'r taliadau roi peth ystyriaeth i'r taliadau a godir gan awdurdodau lleol tebyg eraill er mwyn sicrhau nad yw ymwelwyr yn diystyru taith neu ddychwelyd unwaith eto i ymweld â Sir Benfro. Bydd trafodaethau ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn archwilio'r potensial i ddefnyddio'r

polisi parcio ceir hwn yn ei feysydd parcio ei hun er mwyn darparu dull cyson i ddefnyddwyr meysydd parcio yn y Sir.

2.6 Cynaliadwyedd

Gall taliadau parcio ddylanwadu ar symudiadau traffig lleol, y gall yn ei dro ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol. Effaith mwy cyfyngedig a geir o ran effaith taliadau parcio ar y math o drafnidiaeth a ddewisir e.e. trosglwyddo i gludiant cyhoeddus. Byddai codi taliadau er mwyn darbwyllo pobl rhag teithio mewn ceir preifat yn annhebygol o gael yr effaith a ddymunir heb ei gyfuno â chynlluniau eraill.

2.7 Cynhyrchu Incwm

Ni fydd taliadau parcio'n cael eu gosod er mwyn cynhyrchu incwm yn unig. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r incwm o daliadau parcio er mwyn cynnal darpariaeth gwasanaethau i safon uchel. Lle y bo'n briodol bydd y Cyngor yn gwneud gwelliannau gweladwy i ansawdd yr ardaloedd parcio a'u hamgylchedd.

Mae angen cynnal a chadw ardaloedd parcio yn dda, gyda goleuo da a gwelededdd uchel, er mwyn darparu amgylchedd diogel ar gyfer modurwyr a'u cerbydau. Mae'r incwm o daliadau parcio yn galluogi plismona rheolaidd gan y Swyddogion Gorfodi Sifil, ac mae'n helpu i leihau troseddau ceir a fandaliaeth, gan roi hyder ychwanegol, yn enwedig i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.

DRAFT

3.0 Cyfnod Codi Tâl

Bydd y cyfnod amser pan y bydd taliadau'n berthnasol yn cael ei safoni ar draws y Sir. Gallai'r cyfnodau talu amrywio yn ôl y tymhorau er mwyn bodloni'r galw; bydd y cyfnod talu'n berthnasol ar bob diwrnod o'r wythnos. Bydd hyn yn caniatáu parcio am ddim y tu hwnt i'r oriau hyn; gan ganiatáu gwell defnydd o'r cyfleusterau yn ystod cyfnodau pan fydd y pwysau parcio'n lleihau. Mae cyfnod talu 24 awr ar waith sy'n cynorthwyo'r diwydiant twristiaeth, mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i bobl sy'n aros mewn llety lleol.

4.0 Prisiau gostyngol ar gyfer Arosiadau Hir

Pan fo cwsmeriaid yn debygol o ddefnyddio meysydd parcio cyfnodau hir yn rheolaidd, bydd gostyngiadau ar gael, fel y bo'n briodol, yn cynnig tocynnau wythnosol, tymhorol neu docynnau cadw lle. Bydd yr ystod o dariffau arosiadau hir sydd ar gael ym mhob lleoliad yn dibynnu'n helaeth ar yr hyn y defnyddir y lleoliad ar ei gyfer, gan ystyried unrhyw amodau sy'n rhan o'r trefniadau prydlesu perthnasol. Pan fo tocynnau cadw lle yn cael eu cynnig dylid eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau argaeledd ehangach y mannau parcio.

4.1 Tocynnau Wythnosol

Bydd tocynnau wythnosol yn cael eu darparu ym mhob maes parcio arhosiad hir er mwyn annog ymwelwyr i wneud defnydd ohonynt trwy gydol eu harhosiad. Nid yw tocynnau wythnosol yn gwarantu lle parcio. Bydd y gyfradd wythnosol yn cael ei chynnig fel gostyngiad o'r gyfradd ddyddiol, sef prynu cyfradd ddyddiol chwe diwrnod ac aros am 7 diwrnod. Gellir amrywio'r gyfradd hon yn dibynnu ar ddefnydd y maes parcio. Nid oes modd trosglwyddo'r rhain.

4.2 Trwyddedau Hyblyg (heb eu cadw)

Bydd trwydded hyblyg, a brynir ymlaen llaw, fel arfer ar gael mewn meysydd parcio arhosiad hir. Er na fydd y tocyn hwn yn gwarantu man parcio, bydd yn osgoi'r angen i ddefnyddwyr orfod prynu tocyn dyddiol dro ar ôl tro. Bydd trwyddedau hyblyg yn cael eu gwerthu am gyfnod o dri mis o leiaf a bydd yn cynnig gostyngiad o 40% oddi ar y gyfradd wythnosol gyfatebol. Nid oes modd trosglwyddo'r trwyddedau hyn rhwng meysydd parcio - bydd pob trwydded yn nodi'r maes parcio.

4.3 Trwyddedau Cadw Lle Parcio

Bydd trwydded cadw lle parcio, a brynir ymlaen llaw, yn helpu'r defnyddiwr hirdymor sy'n dymuno cael man parcio ar gael yn barhaol. Bydd y drwydded hon yn cael ei gwerthu am gyfnod o chwe mis o leiaf a bydd yn cynnig gostyngiad o 25% oddi ar y gyfradd wythnosol gyfatebol. Byddant yn cael eu darparu mewn meysydd parcio hirdymor ar yr amod bod nifer digonol o fannau parcio ar gael.

Gallai amgylchiadau eithriadol olygu bod mannau parcio wedi'u cadw ar gael am dâl priodol mewn meysydd parcio arhosiad byr. Gallai hyn ddigwydd pan fo angen cyfyngu ar fynediad traffig i ardaloedd penodol e.e. pan fo parthau cerddwyr yn cael eu creu.

DRAFT

Nid oes modd trosglwyddo'r trwyddedau hyn rhwng meysydd parcio - bydd pob trwydded yn nodi'r maes parcio

4.4 Trwydded ar yr Arfordir

Trwydded dymhorol, a brynir ymlaen llaw, ar gyfer meysydd parcio ar yr arfordir. Nodir y meysydd parcio penodol yn y gorchymyn maes parcio. Mae modd trosglwyddo'r drwydded hon rhwng y meysydd parcio a nodir. Bydd yn osgoi'r angen i ddefnyddwyr orfod prynu tocyn dyddiol dro ar ôl tro.

4.5 Trwydded (penodol i'r maes parcio)

Trwydded, a brynir ymlaen llaw, a fydd yn caniatáu parcio mewn meysydd parcio penodol.

Nid oes modd trosglwyddo'r trwyddedau hyn rhwng meysydd parcio - bydd pob trwydded yn nodi'r maes parcio. Bydd y drwydded hon yn cael ei gwerthu am gyfnod o chwe mis o leiaf.

4.6 Trwydded Pasbort Parcio

Trwydded wythnosol a brynir ymlaen llaw. Bydd hon yn drwydded y gellir ei throsglwyddo, a fydd yn caniatáu parcio ym meysydd parcio'r Cyngor, ac eithrio rhai meysydd parcio tymor byr. Mae hon yn drwydded hyblyg a fydd yn rhoi hyblygrwydd i'r prynwr brynu un drwydded barcio ar gyfer nifer o feysydd parcio, yn bennaf ar gyfer ymwelwyr.

4.7 Digwyddiadau

Weithiau bydd digwyddiadau'n gwneud cais am ganiatâd i ddefnyddio'r meysydd parcio. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried o ran yr effaith ar barcio. Gallai'r ffi gael ei hepgor ar gyfer digwyddiadau elusennol.

5. Asesiad Effaith Integredig

Mae'r Awdurdod wedi datblygu offeryn i asesu effaith strategaethau a'r polisïau arfaethedig ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, datblygu cynaliadwy, yr iaith Gymraeg ac iechyd a lles. Bydd yr offeryn yn cael ei roi ar waith ar gyfer yr holl benderfyniadau polisi ac arfer strategol.

DRAFT

6. Parcio i'r Anabl

Er mwyn lleihau camddefnydd bydd deiliaid 'bathodynnau glas' yn talu'r un faint â defnyddwyr eraill, mewn mannau parcio dynodedig i'r anabl a mannau parcio eraill ym mhob lleoliad. Pan fydd y 'bathodyn glas' yn cael ei arddangos yn glir caniateir arhosiad ychwanegol o awr. Bydd pob lleoliad yn darparu nifer digonol o fannau parcio i'r anabl, a bydd mesuryddion parcio yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

7. Gorchymyn Maes Parcio

Mae'r Gorchymyn Maes Parcio yn nodi'r rheoliadau ar gyfer holl feysydd parcio'r Cyngor sy'n hygyrch i'r cyhoedd, waeth a godir tâl ai peidio. Mae'r Gorchymyn yn nodi amodau defnydd y maes parcio, lefel yr Hysbysiad Tâl Cosb a phryd y gallent gael eu cymhwyso.